

Fforwm 2022/23

Adroddiad Blynyddol

Cyhoeddwyd 26 Ebrill 2023

Rhagair



Gill Whitehead, Prif Weithredwr y Fforwm sy'n ymadael

Mae'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) yn fforwm gwirfoddol gyda chenhadaeth i sbarduno mwy o gydweithrediad rheoleiddiol rhwng aelodau a darparu dulliau gweithredu cydlynol ar gyfer rheoleiddio digidol er budd pobl a busnesau ar-lein

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cyflymder y newid ar draws y dirwedd ddigidol wedi cyflymu, wrth i'r Deyrnas Unedig ddatblygu cynigion deddfwriaethol a rheoleiddiol newydd, wrth i'r diwydiant ymgodymu ag amgylchedd economaidd sy'n newid, ac wrth i dechnolegau newydd olygu rhagor o darfu. Yn y cyd-destun hwn, daeth y Fforwm â'i gyrff rheoleiddio sy'n aelodau at ei gilydd i fynd i'r afael â chyfres o faterion cymhleth. Mae hyn wedi golygu bod pob rheoleiddiwr yn gallu datblygu dull mwy cyfannol, cydlynol a gwybodus o reoleiddio

digidol, a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r diwydiant a'r cyhoedd.

Yn ystod 2022/23 rydym wedi canolbwyntio ar gyflawni ar draws ein prosiectau. Rydym wedi cyhoeddi datganiadau ar y cyd ar y rhyng-gysylltiadau rhwng diogelwch ar-lein, cystadleuaeth a diogelu data fel y bydd gan fusnesau technoleg dirwedd reoleiddio gydlynol sy'n rhoi sicrwydd iddynt a mesurau diogelu priodol i'w cwsmeriaid. Rydym wedi dyfnhau ein dealltwriaeth o dechnoleg newydd – fel y metafyd, Web3 a thechnolegau cwantwm – drwy ein gweithgareddau sganio'r gorwel, er mwyn gallu addasu rheoleiddio digidol, ar yr un pryd â gallu rhagweld a mynd i'r afael â niwed posibl. Fe wnaethom hefyd sicrhau cyllid gan y llywodraeth ar gyfer prosiect newydd i ymchwilio i wasanaeth cynghori aml-asantiaeth posibl ar gyfer cwmnïau arloesol. Rydym wedi parhau i addasu ein dull ystywyth o weithio gyda'n gilydd a byddwn yn adeiladu ar hyn wrth i ni gyflawni ein cynllun gwaith ar gyfer 2023/24 a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Rwy'n rhoi'r gorau i fy rôl fel Prif Weithredwr y Fforwm wrth i mi drosglwyddo i arwain gwaith Diogelwch Ar-lein Ofcom. Mae wedi bod yn ffraind bod yn Brif Weithredwr cyntaf y Fforwm ac rwy'n hynod ddiolchgar i'r holl gydweithwyr rwyf wedi gweithio gyda nhw dros y 18 mis diwethaf. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Bethan Watts am gamu i'r adwy fel Prif Swyddog Gweithredol dros dro dros y misoedd diwethaf tan y penodwyd fy olynydd, Kate Jones, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda hi a pharhau i gefnogi gwaith y Fforwm o'm sedd newydd. Rwy'n hyderus y bydd yr hyn mae'r Fforwm yn ei gyfrannu at reoleiddio digidol yn parhau i sicrhau canlyniadau gwell i bawb y mae technoleg ddigidol yn effeithio arnynt.

Gill Whitehead

Uchafbwyntiau'r Fforwm yn 2022/23

Mae'r Fforwm wedi cydweithio i sicrhau cydlyniant rheoleiddiol, cydweithio a gallu ar amrywiaeth o faterion digidol

Y llynedd, amlinellodd y Fforwm raglen waith uchelgeisiol i fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o faterion digidol cymhleth. Gyda'i gilydd, mae'r Fforwm wedi:

- **archwilio'r rhyng-gysylltiadau rhwng trefniadau rheoleiddio;**
- **rhannu arferion gorau ar faterion gan gynnwys prosesu algorithmig a galluogi arloesi;**
- **cyfrannu arweinyddiaeth meddwl ar oblygiadau technolegau newydd fel y metafyd, Web3 a thechnolegau cwantwm;**
- **creu rhwydweithiau arbenigedd ar faterion digidol ar draws ei aelod-reoleiddwyr.**

Mae'r gwaith hwn wedi golygu bod gan bob rheoleiddiwr farn fwy cyfannol am y dirwedd ddigidol a gall fod yn fwy effeithiol yn eu cyfrifoldebau unigol, er budd pobl a busnesau.

Cipolwg ar ein blwyddyn 2022/23

10



cyhoeddiad ar y
cyd

450



nifer y bobl a aeth i
ddigwyddiadau sganio'r gorwel
y Fforwm

32



ymatebion i gais y
Fforwm am
fewnbwn

131



adroddiad ymchwil ar
borth ymchwil y Fforwm

13



awdurdod rhyngwladol yr
ymgysylltwyd â nhw

1. Cyflwyniad i'r Fforwm

Mae'r Fforwm yn dod â rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig at ei gilydd i gyflwyno dull gweithredu cyson ar gyfer rheoleiddio digidol er budd pobl a busnesau ar-lein

1.1 Ar hyn o bryd mae'r Fforwm yn cynnwys pedwar rheoleiddiwr yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am gymhwyso rheoleiddio i faterion yn ymwneud â'r farchnad ddigidol. Dyma'r aelodau:

- yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)
- yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
- Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom)

1.2 Y llynedd, cyhoeddodd y Fforwm Gylch Gorchwyl, a oedd yn nodi y bydd Prif Swyddogion Gweithredol y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yn cytuno ac yn cyhoeddi dwy ddogfen allweddol. Yn gyntaf, cynllun gwaith sy'n nodi'r meysydd gwaith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac yn ail, adroddiad blynyddol sy'n rhoi cofnod o'r cynnydd a'r cyflawniadau dros y flwyddyn flaenorol.¹ Dyma'r ail Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2022/23, sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chynllun Gwaith 2023/24.

1.3 Fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl, mae'r Fforwm yn fforwm cydweithredu gwirfoddol, sy'n hwyluso ymgysylltu rhwng cyrff rheoleiddio mewn meysydd polisi digidol sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall. Nid yw'n endid statudol na chorfforaethol ac nid yw'n darparu cyngor na chyfarwyddyd ffurfiol i gyrff rheoleiddio sy'n aelodau ohono. Mae'r aelodau yn parhau'n atebol yn unigol am gyflawni eu swyddogaethau.

¹ Y Fforwm: Cylch gorchwyl - GOV.UK (www.gov.uk), y Fforwm, 5 Medi 2022

2. Cyflawni ein blaenoriaethau

Mae'r Fforwm wedi gweithio i hyrwyddo cydlyniant, cydweithio a meithrin gallu ar draws ei aelodau a'u cylchoedd gwaith

- 2.1 Roedd Cynllun Gwaith 2022/23 y Fforwm yn nodi ymrwymïadau a nodau'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau ar gyfer y flwyddyn i ddod.² Y nod ar gyfer y flwyddyn oedd canolbwyntio ar ddarpariaeth y Fforwm – er mwyn i'r diwydiant a'r cyhoedd allu gweld allbynnau pendant o ganlyniad i'r cydweithio hwn.
- 2.2 Llwyddwyd i gyflawni hyn. Roedd prosiectau cydlyniant y Fforwm yn adeiladu corff o waith sy'n paratoi'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau i ddatblygu dull gweithredu cydlynol o ddechrau trefniadau deddfwriaethol a rheoleiddiol newydd; roedd ein gwaith cydweithredol yn meithrin arferion gorau ac fe wnaeth ein gwaith ar allu ddatblygu dulliau cydgysylltiedig o ran sganio'r gorwel, recriwtio a datblygu sgiliau.
- 2.3 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut roedd gwaith y Fforwm yn hyrwyddo'r tri nod cyffredinol a nodir yn ein Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith 2022/23:
 - Cysondeb rhwng cyfundrefnau
 - Cydweithio ar brosiectau
 - Meithrin gallu ar draws rheoleiddwyr

Cysondeb

Mae'r Fforwm wedi canolbwyntio ar hyrwyddo cydlyniant lle mae cyfundrefnau'n croestorri, o dan y rheoliadau presennol ac wrth baratoi ar gyfer deddfwriaeth newydd bosibl neu ddeddfwriaeth sydd ar y gweill

- 2.4 Y llynedd, roedd ein gwaith cydlyniant yn blaenoriaethu gosod y sylfeini ar gyfer gweithredu'r drefn diogelwch ar-lein arfaethedig drwy waith ar y cyd rhwng Ofcom ac aelodau eraill y Fforwm. Roedd hyn yn cynnwys diogelu plant ar-lein a'r rhyng-gysylltiad rhwng diogelwch ar-lein a chystadleuaeth. Roedd hefyd yn adeiladu ar waith dwyochrog blaenorol rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i hyrwyddo cystadleuaeth a phreifatrwydd mewn hysbysebion ar-lein.³

² Cynllun Gwaith y Fforwm 2022/23 [GOV.UK](#) y Fforwm, 28 Ebrill 2022

³ Datganiad ar y Cyd CMA a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth [GOV.UK](#) CMA/ICO 19 Mai 2021

Diogelu Plant Ar-lein (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth/Ofcom)

- 2.5 Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom ddyletswyddau penodol ar gyfer amddiffyn plant ar-lein; o dan y Bil Diogelwch Ar-lein (OSB), bydd Ofcom yn ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau yn y maes hwn. Drwy'r Fforwm, mae'r ddau gorff rheoleiddio wedi bod yn cydweithio i ddatblygu dull cyson o ddiogelu plant ar-lein, gyda'r nod o wella canlyniadau i blant, rhieni a gofalwyr.
- 2.6 Dros y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom barhau i gydweithio'n agos ar oruchwyllo a darparu gwasanaethau o dan y Cod Plant a'r drefn llwyfannau rhannu fideos (VSP) yn y drefn honno.⁴ Cyhoeddodd y rheoleiddwyr ymchwil ar y cyd ar agweddau rhieni a phlant tuag at dechnoleg sicrwydd oedran ar draws gwahanol gyddestunau ar-lein.⁵ Roedd y gwaith ymchwil hwn yn sail i ddealltwriaeth y rheoleiddwyr o breifatrwydd ac ymddiriedaeth gan eu bod yn ymwneud ag ymgysylltiad defnyddwyr ag offer sicrwydd oedran a byddant yn parhau i helpu wrth i aelodau'r Fforwm ddatblygu dull gweithredu cydlynol ar gyfer y technolegau rheoleiddio hyn.
- 2.7 Roedd cwmplas gwaith Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gyda'i gilydd yn ymestyn y tu hwnt i ddiogelu plant ar-lein, gyda datganiad ar y cyd yn mynd i'r afael â'r rhyngweithio eang rhwng diogelwch ar-lein a phreifatrwydd (Gweler **Blwch A**).⁶ Bydd y gwaith hwn yn parhau tan 2023/24, fel y nodir yn y cynllun gwaith cysylltiedig.

⁴ [Cod Dylunio Priodol i Oedran Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#)

⁴ [Ofcom, rheoliadau llwyfannau rhannu fideos](#)

⁵ [Ymchwil Sicrhau Oedran GOV.UK](#) 11 Hydref 2022

⁶ [Datganiad ar y Cyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom GOV.UK](#) 25 Tachwedd 2022

Blwch A: Datganiad ar y cyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom ar ddiogelu data a diogelwch ar-lein

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom [gyd-ddatganiad](#) adroddiad ar sut maent yn bwriadu sicrhau'r cysondeb mwyaf posibl rhwng y trefniadau diogelu data a'r trefniadau diogelwch ar-lein arfaethedig, a gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo eu cydymffurfiaeth.

Mae'r cyd-ddatganiad yn nodi gweledigaeth ar y cyd rhwng y ddau reoleiddiwr, sydd â'r bwriad o weithredu fel cwmpas ar gyfer y ddau reoleiddiwr o dan eu trefniadau perthnasol. Mae hyn yn golygu:

- bydd defnyddwyr gwasanaethau ar-lein yn hyderus y bydd eu diogelwch a'u preifatrwydd yn cael eu cynnal, ac y bydd y rheoleiddwyr yn cymryd camau prydlon ac effeithiol pan fydd darparwyr yn methu yn eu rhwymedigaethau, a
- bydd darparwyr gwasanaethau ar-lein o bob maint yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau ac yn parhau i arloesi a thyfu, gyda chefnogaeth eglurder rheoleiddiol ac yn rhydd o faich gormodol.

Mae'r datganiad yn nodi'n glir y dylai sefydliadau ddylunio eu gwasanaethau ar-lein gyda phreifatrwydd a diogelwch mewn golwg. Mae'n gweithredu fel datganiad o fwriad ar gyfer sut bydd y ddau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd i ategu'r dull gweithredu cydlynol hwn, wrth i ddeddfwriaeth ddatblygu. Bydd hyn yn cynnwys Ofcom yn ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrth baratoi Codau Ymarfer a chanllawiau ar gyfer y drefn diogelwch ar-lein arfaethedig, a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn paratoi canllawiau, gyda chyfraniad clos gan Ofcom, ar ddisgwyliadau diogelu data ar gyfer gwasanaethau ar-lein sy'n defnyddio technolegau diogelwch fel sicrwydd oedran a chymedroli cynnwys yn awtomatig.

Mae'r broses o gynhyrchu'r Datganiad ar y Cyd wedi sicrhau bod perthynas waith ddofn bellach ar draws y timau perthnasol yn Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a bod gan y timau hyn ddealltwriaeth fwy cyfannol o amcanion a dyletswyddau'r ddau reoleiddiwr. Bydd y cysylltiadau hyn yn dod yn bwysicach byth wrth roi'r trefniadau rheoleiddio perthnasol ar waith a'u rhedeg yn ddidrafferth.



Hyrwyddo cystadleuaeth a phreifatrwydd mewn hysbysebu ar-lein

- 2.8 Er bod hysbysebu ar-lein wedi sbarduno twf llawer o wasanaethau rhyngwrwyd, mae'r technolegau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hysbysebion ar-lein wedi eu targedu (yn amodol ar eu gweithredu) yn gallu creu risgiau, o ran hawliau diogelu data a phreifatrwydd defnyddwyr, ac o ran cystadleuaeth effeithiol.
- 2.9 Gan adeiladu ar y datganiad ar y cyd a gyhoeddwyd yn 2021, bu'r CMA a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cydweithio'n agos drwy gydol 2022/23 ar faterion yn yr ecosystem hysbysebu ar-lein. Drwy eu perthynas â'r Fforwm, maent wedi bod yn cyfuno arbenigedd a gwybodaeth i gefnogi gweithgareddau goruchwyllo ac ymchwilio yn yr ecosystem hon. Un ffocws canolog oedd deialog agos ar ddau achos yn y byd go iawn a fydd yn effeithio ar filiynau yn y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio gwasanaethau ar-lein:
- bu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn cydweithredu ar yr oruchwyliaeth a'r adrodd parhaus sy'n digwydd o dan ymrwymadau Blwch Tywod Preifatrwydd Google,⁷ ac
 - ymgysylltodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar y cyd ar gynlluniau tracio apiau Apple a chynlluniau atal olrhain deallus drwy Astudiaeth o Farchnad Ecosystemau Symudol y CMA.⁸

Trawstoriad o gystadleuaeth a diogelwch ar-lein

- 2.10 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Ofcom a'r CMA ddatganiad ar y cyd ar ddiogelwch ar-lein a chystadleuaeth.⁹ Roedd yn tynnu sylw at gyfleoedd a thensiynau posibl sy'n cael eu creu drwy groestoriad yr amcanion diogelwch ar-lein a chystadleuaeth ac yn nodi sut mae'r Awdurdod



Ffigur 1: Digwyddiad Ofcom a'r CMA ar ddiogelwch ar-lein a chystadleuaeth

Cystadleuaeth a Marchnadoedd ac Ofcom yn disgwyl gweithio gyda'i gilydd i ddarparu dull rheoleiddio cydlynol ar draws y trefniadau newydd.

- 2.11 Roedd y datganiad yn amlinellu meysydd ar gyfer cydweithio posibl, gan nodi y bydd y cydweithio hwn yn dibynnu ar natur y rhyngweithio a ffurf derfynol y ddeddfwriaeth newydd. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys: cydweithio i wireddu synergeddau rhwng y ddwy gyfundrefn, cydlynu lle gall ymyriadau mewn un maes polisi arwain at oblygiadau negyddol i'r llall, a rhannu arbenigedd i lywio asesiadau rheoleiddio penodol.

⁷ Ymchwiliad i newidiadau porwr 'Blwch Tywod Preifatrwydd' Google - GOV.UK (www.gov.uk)

⁸ Astudiaeth o'r farchnad ecosystemau symudol - GOV.UK (www.gov.uk)

⁹ Datganiad ar y Cyd CMA ac Ofcom GOV.UK 14 Gorffennaf 2022

- 2.12 Ategwyd y datganiad gan ddigwyddiad ar y cyd ym Manceinion ym mis Medi 2022, lle'r oedd tua 100 o bobl yn bresennol ar ran rheoleiddwyr, y diwydiant a'r byd academiaidd. Bydd Ofcom a'r CMA yn parhau i weithio gyda'i gilydd pan fydd gan ymyriadau cystadleuaeth oblygiadau ar gyfer diogelwch ar-lein ac fel arall.

Blaenoriaethau cydlyniant pellach

- 2.13 Parhaodd Ofcom a'r FCA â'u rhaglen o waith ar y cyd ar dwyll a sgamiau ar-lein yng nghydestun yr OSB. Mae hyn wedi canolbwyntio ar yr FCA yn rhannu arbenigedd ar hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon ar-lein gydag Ofcom wrth iddo baratoi i ysgwyddo cyfrifoldebau newydd pan ddaw'r drefn i rym - er enghraifft, drwy raglen o weithdai i hwyluso mewnbwn i wahanol gynnyrch rheoleiddio y bydd Ofcom yn eu cynhyrchu ar ôl i'r OSB gael y Cydsyniad Brenhinol.
- 2.14 Fe wnaeth cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm barhau i wella eu dealltwriaeth o amgryptio o un pen i'r llall (E2EE), gan gyhoeddi crynodeb o'u trafodaeth o gwmpas y bwrdd i randdeiliaid ym mis Ionawr 2022.¹⁰ Wedi'i gynnal gan yr FCA, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom, roedd y drafodaeth hon o gwmpas y bwrdd yn edrych ar fanteision a risgiau amgryptio o un pen i'r llall ar gyfer gwasanaethau ar-lein, eu defnyddwyr a'i oblygiadau ar gyfer rheoleiddio digidol. Ar sail y drafodaeth hon, datblygodd y prosiect ddiffiniadau o waith ar y cyd o amgryptio o un pen i'r llall gan ystyried y ffyrdd presennol mae'n cael ei ddiffinio gan randdeiliaid.
- 2.15 Er mwyn cynorthwyo'r gwaith cydlyniant, fe wnaeth aelodau'r Fforwm hefyd edrych ar sut gallai set ehangach o drefniadau rheoleiddio perthnasol sy'n cwmpasu gwasanaethau digidol fod yn sail i gydweithredu yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys ymarfer mapio tirwedd rheoleiddio digidol mewnol yn ystod 2022.

Cydweithio

Roedd gwaith cydweithio'r Fforwm yn canolbwyntio ar rannu a hyrwyddo arferion gorau mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin ar draws yr aelodau.

- 2.16 Prosesu algorithmig a galluogi arloesi yn y diwydiant oedd y meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithio yn 2022/23. Daeth y ddau brosiect hyn ag arbenigwyr o bob un o bedwar aelod y Fforwm at ei gilydd i rannu arferion gorau a nodi a mynd i'r afael â heriau cyffredin. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2023/24, fel y nodir yn ein cynllun gwaith cysylltiedig.

Prosesu algorithmig

- 2.17 Mae defnyddio algorithmau yn sail i lawer o wasanaethau digidol presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae deall sut mae cefnogi'r defnydd o brosesu algorithmig mewn ffordd sy'n hyrwyddo eu manteision ac yn lliniaru eu risgiau yn nod cyffredin i holl aelodau'r Fforwm.

¹⁰ Crynodeb o'r drafodaeth o gwmpas y bwrdd y Fforwm ar amgryptio o un pen i'r llall GOV.UK 28 Gorffennaf 2022

2.18 Fe wnaeth y prosiect hwn gynnal gweithgareddau a oedd yn adeiladu ar ganfyddiadau papurau'r Fforwm ar brosesu algorithmig a thirwedd archwilio algorithmig a gyhoeddwyd ddechrau 2022.¹¹ Roedd hyn yn cynnwys edrych yn fanwl ar faterion yn ymwneud ag archwilio a chaffael, gyda'r nod o feithrin arferion gorau ar draws yr ecosystem algorithm (gweler **Blwch B** am ragor o fanylion). Fe wnaeth y tîm hefyd:

- gyd-gynnal digwyddiad o gwmpas y bwrdd yng nghynhadledd GovTech yn yr Hâg, gan ddod â rheoleiddwyr rhwngwladol, academyddion a'r diwydiant at ei gilydd i drafod dulliau rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial.
- cyhoeddi canfyddiadau o'u Cais am Fewnbwn ar niweidiau a manteision posibl prosesu algorithmig a'r dirwedd archwilio algorithmig, gyda thros 30 o randdeiliaid yn darparu ymatebion.¹²
- Yn ogystal â'r gwaith a nodwyd yng nghynllun gwaith y llynedd, mae holl aelodau'r Fforwm wedi bod yn ymgysylltu â'r llywodraeth wrth iddi ddatblygu ei dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio deallusrwydd artiffisial.

¹¹ [Canfyddiadau'r Fforwm o brosesu algorithmig GOV.UK](#) 28 Ebrill 2022

¹² [Ymateb y Fforwm i Alwad am Fewnbwn Algorithmau GOV.UK](#) 23 Medi 2022

Blwch B: Meithrin arferion gorau ym maes prosesu algorithmig

Cyhoeddodd y prosiect hwn ddau bapur ym mis Ebrill 2022 a oedd yn tynnu sylw at brif niweidion a manteision prosesu algorithmig a thirwedd bresennol [archwilio algorithmig](#). Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi gwneud gwaith manylach i ddeall rhai o'r risgiau i systemau a nodwyd yn y papurau hyn. Roedd y gwaith hwn yn edrych yn benodol ar faterion yn ymwneud ag archwilio a chaffael gyda'r nod o feithrin arferion gorau ar draws yr ecosystem algorithmau.

Gan adeiladu ar y bylchau a nodwyd yn y papur ar niweidion a manteision, cynhaliodd y tîm gyfres o weithdai traws-reoleiddwyr i feithrin dealltwriaeth fewnol o archwilio algorithmig. Roedd arbenigwyr o bob math o dimau (gan gynnwys economegwyr, arbenigwyr polisi a thechnoleg) yn bresennol yn y gweithdai a oedd yn edrych ar y mathau o sgiliau ac adnoddau sydd eu hangen i gynnal asesiadau o'r fath, a pha ddulliau archwilio sy'n effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau. Roedd y gweithdai hyn yn galluogi timau'r rheoleiddwyr i rannu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd mewn fforwm diogel a gonest. Yn ogystal â chryfhau galluoedd mewnol, mae'r tîm hefyd wedi cynhyrchu ymchwil desg i'r farchnad ar gyfer archwilio trydydd parti, i ystyried sut gall y rheoleiddwyr gefnogi datblygiad ac ansawdd y farchnad archwilio trydydd parti.

Roedd y papur ar niweidion a manteision hefyd yn nodi nad yw busnesau sy'n caffael a/neu'n defnyddio algorithmau yn aml yn gwybod llawer am eu tarddiad na'u cyfyngiadau. Gan hynny, fe wnaeth tîm gwmpasu rhagor o waith ar dryloywder y broses gaffael, gan arwain at gyhoeddi papur ym mis Mawrth 2023 yn edrych ar sut mae gwella [tryloywder i brynwyr systemau algorithmig](#), er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei brynu a chryfderau a chyfyngiadau posibl y systemau hyn.

Mae'r prosiect algorithmau bellach yn swyddogaeth gydweithredol allweddol ar gyfer y Fforwm – mae wedi sefydlu cysylltiadau gweithio cryf ymysg arbenigwyr technoleg o bob un o'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau, wedi nodi heriau cyffredin ac wedi rhannu'r arferion gorau. O ganlyniad, mae pob rheoleiddiwr yn elwa ar synnwyr mwy cyfannol o'r heriau sy'n gysylltiedig â phrosesu algorithmig a'r gwaith sydd ei angen i fynd i'r afael â nhw.

```
selection at the end -add back the deselected objects
mirror_ob.select= 1
modifier_ob.select=1
key.context.scene.objects.active = modifier_ob
print("selected" + str(modifier_ob)) # modifier object selected
mirror_ob.select = 0
key = key.context.selected_objects[0]
key.data.objects[one.name].select = 1
```

```
print("please select exactly two objects, no more, no less")
```

```
OPERATOR CLASSES -----
```

```
class MirrorOperator(bpy.types.Operator):
    """Mirror the selected object to the selected object"""
    bl_idname = "object.mirror_mirror_x"
    bl_label = "Mirror X"
    bl_options = {'REGISTER', 'UNDO'}

    def execute(self, context):
        selected = context.selected_objects
        if len(selected) != 2:
            self.report({'ERROR'}, "Please select exactly two objects")
            return {'CANCELLED'}
```

Galluogi arloesi mewn diwydiant

- 2.19 Mae natur gyflym gwasanaethau digidol yn golygu ei bod yn bwysig i reoleiddwyr sy'n aelodau o'r Fforwm ystyried sut mae cefnogi arloesi cyfrifol ar yr un pryd â chyflawni eu hamcanion polisi eu hunain. Fe wnaethom sefydlu prosiect pwrpasol i rannu gwybodaeth am sut mae cefnogi arloesi cyfrifol sy'n cydymffurfio mewn marchnadoedd digidol.
- 2.20 Ein nod oedd canfod cyfleoedd i gydweithio i gefnogi arloeswyr. Y man cychwyn oedd mapio'r cynnig presennol i arloeswyr, gan nodi galluoedd, dulliau gweithredu a dyletswyddau pob aelod o'r Fforwm, gan gynnwys y gwasanaethau presennol a ddarperir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r cydweithio llwyddiannus sydd eisoes yn bodoli rhyngddynt. Roedd y gwaith hwn yn sail i'n dealltwriaeth o ble gallai cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm gynyddu eu heffaith a llywio cynigion arloesi ei gilydd. Fe wnaeth y Fforwm hefyd ymgysylltu'n uniongyrchol â'r diwydiant, fel y sectorau technoleg cyllid a gemau fideo, i glywed yn uniongyrchol am yr heriau rheoleiddiol sy'n wynebu busnesau arloesol.
- 2.21 Roedd yr wybodaeth hon yn sail i ymdrechion y Fforwm i archwilio gwasanaeth cynghori aml-asiantaeth sydd wedi ei anelu at arloeswyr digidol. Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd yr adran BEIS ar y pryd fod y Fforwm wedi llwyddo mewn cais am gyllid gan Gronfa Arloesi'r llywodraeth i Reoleiddwyr i ymchwilio i wasanaeth o'r fath a'i dreialu.¹³ Mae rhagor o fanylion am y gwaith hwn wedi eu hamlinellu yn y Cynllun Gwaith 2023/24 sydd ynghlwm.¹⁴

Galluoedd

Roedd gwaith y Fforwm ar alluoedd yn golygu bod aelodau'n dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn meithrin arbenigedd mewn sganio'r gorwel a sut maent yn mynd ati i recriwtio, dysgu a datblygu.

- 2.22 Ein prif flaenoriaethau yn y maes hwn oedd:
- a) cydweithio ar dechnolegau newydd sy'n ymwneud â sganio'r gorwel;
 - b) cydweithredu o ran sut mae aelodau'r Fforwm yn datblygu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer rheoleiddio digidol; a
 - c) sefydlu rhwydweithiau rhannu gwybodaeth ar arferion gorau ac arbenigedd ar faterion rheoleiddio.

¹³ Mae Cronfa Arloesi'r Rheoleiddwyr, a lansiwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar y pryd, yn galluogi rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig i wneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau sy'n helpu i greu amgylchedd rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig sy'n datgloi arloesi ac yn gwneud y Deyrnas Unedig y lle gorau i ddechrau a thyfu busnes. <https://www.gov.uk/government/publications/projects-selected-for-the-regulators-pioneer-fund/projects-selected-for-the-regulators-pioneer-fund-2022>.

¹⁴ Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddylunio o gwmpas safbwyntiau, anghenion ac arferion gweithio arloeswyr ar draws yr economi ddigidol. Mesurir llwyddiant yn ôl hygyrchedd y gwasanaeth peilot ac effaith ein cyngor ar y busnesau sy'n ei ddefnyddio. Erbyn mis Awst 2023, bydd y prosiect yn cyflwyno adroddiad i'r Fforwm ynghylch a ddylid cyflwyno gwasanaeth cynghori aml-asiantaeth ar gyfer arloeswyr, a sut i wneud hynny.

Sganio'r gorwel am dechnoleg newydd

2.23 Mae gwaith sganio'r gorwel ar y cyd y Fforwm yn dadansoddi goblygiadau traws-reoleiddio technolegau penodol sy'n dod i'r amlwg. Mae'r gwaith arloesol hwn yn galluogi aelodau'r Fforwm i rannu gwybodaeth, nodi heriau yn y dyfodol ac atebion posibl gyda'i gilydd ac ymlaen llaw.

2.24 Yn 2022/23 roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar drefnu digwyddiadau ar bynciau penodol gydag arbenigwyr gwadd, ac yna cyhoeddi blogiau a phapurau gwybodaeth i rannu'r hyn a ddysgwyd. Cynhaliodd y tîm symposiymau ar y metafyd ym mis Mai 2022, ar Web3 ym mis Hydref 2022, ac ar dechnolegau cwantwm ym mis Chwefror 2023.



Ffigur 2: Tîm sganio'r gorwel y Fforwm yn y Symposiwm Web3

2.25 Daeth y digwyddiadau hyn â'r byd academiaidd, y diwydiant, y llywodraeth a rheoleiddwyr at ei gilydd i drafod datblygiad, risgiau a chyfleoedd y technolegau hyn a'u goblygiadau rheoleiddiol posibl. Ar ôl pob un o'r digwyddiadau hyn, cyhoeddodd y Fforwm flog ar y cyd yn nodi myfyrdodau'r aelodau ar y pwnc a'r camau nesaf ar gyfer parhau i ymgysylltu ar y materion hyn, er mwyn rhannu gwybodaeth ac ysgogi trafodaeth ymysg grŵp ehangach o randdeiliaid.¹⁵ Yn dilyn symposiwm Web3 cyhoeddwyd papur gwybodaeth ar y cyd ym mis Chwefror (gweler **Blwch C**).¹⁶ Bu'r Fforwm yn gweithio ar y digwyddiadau hyn gyda phartneriaid gan gynnwys Digital Catapult, y National Quantum Computing Centre, UCL a'r Imperial College yn Llundain i sicrhau bod y drafodaeth yn elwa ar arbenigedd y diwydiant ac arbenigedd academiaidd.

2.26 Bu'r prosiect hefyd yn arddangos ei waith yn allanol, gan gynnwys i arweinwyr unedau technoleg newydd ar draws y llywodraeth yn nigwyddiad Cymuned Diddordeb EmTech Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth (GO-Science) a thrwy ddigwyddiadau i randdeiliaid ar ganfyddiadau ei bapur gwybodaeth Web3.

2.27 Yn ogystal â gweithgareddau allanol, cynhaliodd y tîm gyfres o sesiynau arferion gorau ar gyfer pob un o'r rheoleiddwyr i rannu eu dulliau priodol o sganio'r gorwel, gan gynnwys methodolegau, ffynonellau gwybodaeth a ffyrdd o weithio. Mae hyn wedi helpu i ddatblygu dull mwy cydlynol a chyson o sganio'r gorwel ar draws y rheoleiddwyr.

¹⁵ [Blog Web3 y Fforwm GOV.UK](#) 10 Tachwedd 2022
[Blog Cwantwm y Fforwm GOV.UK](#) 6 Ebrill 2023

¹⁶ [Papur Gwybodaeth y Fforwm ar Web3 GOV.UK](#) 3 Chwefror 2023

Blwch C: Sganio'r gorwel ar Web 3

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd y rhaglen Sganio'r gorwel '[Bapur Gwybodaeth](#)' yn darparu safbwynt rheoleiddio ar y cyd ar Web3. Dyma gyhoeddiad cyntaf y tîm ac mae'n enghraifft arloesol o reoleiddwyr yn cydweithio i ddeall technolegau newydd.

Fe wnaeth y tîm gynnull dros 200 o gynrychiolwyr o'r byd academiaidd, y diwydiant, y llywodraeth a rheoleiddwyr yn Symposiwm Web3 y Fforwm ym mis Hydref 2022, mewn partneriaeth â [Chanolfan UCL ar gyfer Technolegau Cadwyn Flociau](#), gyda chyfraniadau gan [Ganolfan Technoleg Ariannol yr Imperial College yn Llundain](#) a [Digital Catapult](#). Cafodd themâu allweddol o'r digwyddiad, a oedd yn cynnwys trafodaethau ar sut mae ecosystem Web3 yn esblygu yn ogystal â'r cyfleoedd a'r heriau rheoleiddiol sy'n wynebu cwmnïau ac awdurdodau cyhoeddus, eu [cyhoeddi mewn blog](#).

Fe wnaeth y Fforwm [gyhoeddi Papur Gwybodaeth](#) ar ôl y digwyddiad. Mae'r broses o lunio'r papur hwn yn dangos sut mae'r Fforwm yn datblygu cysylltiadau gweithio cydweithredol ar draws ei aelodau. Mae Ofcom, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi gweithio'n agos ac yn ailadroddol i ddatblygu, herio a mireinio eu safbwyntiau cyffredin ar y pwnc dadleuol hwn, a cheisio mewnbwn mewnol gan amrywiaeth eang o dimau arbenigol.

Roedd y papur terfynol yn cyflwyno safbwynt ar y cyd y Fforwm ar fanteision posibl y cysyniadau a'r technolegau sy'n gysylltiedig â Web3 yn ogystal â'r niwed presennol a phosibl i ddefnyddwyr a risgiau cymdeithasol ehangach. Roedd hefyd yn edrych ar yr ystyriaethau rheoleiddio ar draws cylch gwaith aelodau'r Fforwm a allai fod yn berthnasol i raglenni sy'n gysylltiedig â Web3.

Mae'r tîm sganio'r gorwel wedi ymgysylltu â chydweithwyr perthnasol ar draws y pedwar rheoleiddiwr yn dilyn hynny i sicrhau bod y prif ganfyddiadau'n cael eu bwydo'n ôl i'w sefydliadau perthnasol, yn ogystal â gyda'r diwydiant, y llywodraeth, y byd academiaidd a rheoleiddwyr eraill. Drwy gydweithio, roedd modd i aelodau'r Fforwm ddefnyddio eu harbenigedd a darparu ysgogiad cydlynol ac ystyriol i'r gymuned ehangach o randdeiliaid ar y pwnc hwn.

Mae cyhoeddi'r papur gwybodaeth Web3 yn dangos dull mwy rhagweithiol y rhaglen Sganio'r Gorwel o ymdrin â thechnolegau newydd, gyda'r nod o ddeall niwed a chyfleoedd posibl cyn iddynt aeddfedu. Mae'r rhaglen hefyd yn dangos datblygiad lens 'traws-reoleiddiol' newydd i ddadansoddi a deall effaith technolegau newydd.



Sgiliau a Galluoedd

- 2.28 Mae'r Fforwm yn rhoi cyfle i aelodau feithrin gallu a chyfathrebu â'r farchnad ddoniau mewn ffordd effeithlon, gan ategu pob un o raglenni trawsnewid unigol y rheoleiddwyr.
- 2.29 Cydweithiodd aelodau'r Fforwm ar gyfres o brosiectau peilot ar draws recriwtio a dysgu a datblygu. Roedd hyn yn cynnwys:
- cynnal digwyddiad gyrfaedd ar y cyd gyda thros 130 o bobl yn bresennol ym mis Ionawr 23 i dynnu sylw at yr amrywiaeth eang o swyddi sydd ar gael ar draws rheoleiddwyr y Fforwm, gan gynnwys peirianwyr data, cynghorwyr technoleg, dadansoddwyr a llunwyr polisïau;
 - cynnal gwaith maes yn y Sioe Brentisiaid Genedlaethol ym mis Hydref 22, gan gyflwyno ymgeiswyr gyrfaedd cynnar i'r amrywiaeth o lwybrau gyrfa sydd ar gael ym maes rheoleiddio digidol;
 - penodi unigolyn graddedig cyntaf y Fforwm ar gynllun graddedig sy'n cylchdroi. Bydd yr unigolyn yn cwblhau cyfres o gylchdroadau chwe mis ar draws cyrff rheoleiddio perthnasol sy'n aelodau o'r Fforwm; a
 - chynnal digwyddiad dysgu ar gyfer staff yr holl gyrff rheoleiddio sy'n aelodau, a oedd yn ymdrin â'r diwygiadau deddfwriaethol disgwylidig sydd ar y gweill, sut mae pob rheoleiddiwr yn gweithio yn ogystal â'r cyfleoedd i gydweithio.

Rhwydweithiau rhannu gwybodaeth

- 2.30 Er mwyn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd ar faterion digidol ymhellach, sefydlodd y Fforwm dri rhwydwaith rhannu gwybodaeth ar bynciau penodol ar draws yr aelodau. Roedd y rhain yn dod ag arbenigwyr ar draws aelodau'r Fforwm at ei gilydd ar feysydd polisi cyffredin i sbarduno rhannu gwybodaeth a chydweithio parhaus.
- 2.31 Sefydlwyd tri rhwydwaith yn 2022/23, gan rannu gwybodaeth am dechnoleg reoleiddiol a goruchwylio, pensaernïaeth dewis ar-lein, a thechnolegau gwella preifatrwydd. Bu'r Fforwm hefyd yn cefnogi rhannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn briodol ar y dirwedd reoleiddio ehangach ar gyfer gwasanaethau cwmwl i ategu astudiaeth Ofcom o'r farchnad yn y cwmwl.¹⁷ Yn ogystal â chysylltu arbenigwyr ar draws y rheoleiddwyr, mae'r rhwydweithiau rhannu gwybodaeth wedi cyfrannu at lif gwaith y Fforwm yn y dyfodol, gan nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio mwy ffurfiol fel rhan o'r cynllun gwaith nesaf.

Datblygu'r Fforwm

Mae'r Fforwm wedi cryfhau ei drefn lywodraethu a'i dryloywder

- 2.32 Mae'r Fforwm yn fodel arloesol o gydlyn rheoleiddiol sy'n parhau i esblygu. Rydym yn gweithredu ar fodel 'prif ganolfan a lloerennau' – gyda 'thîm craidd' bach a chanolog dan arweiniad Prif Weithredwr penodol y Fforwm, gan weithio'n agos gyda thimau prosiect sydd

¹⁷ Cais am fewnbwn: Astudiaeth OFCOM o'r farchnad ar gyfer gwasanaethau cwmwl 6 Hydref 2022

wedi eu gwreiddio yn y rheoleiddwyr. Mae pob un o Brif Swyddogion Gweithredol y cyrff rheoleiddio yn cwrdd bob chwarter i bennu a chytuno ar gyfeiriad strategol y Fforwm.

2.33 Yn ystod 2022/23 bu'r Fforwm yn gweithio i gryfhau ei fecanweithiau llywodraethu a thryloywder. Roedd yr ymdrechion hyn yn cynnwys:

- cyhoeddi Cylch Gorchwyl, sy'n nodi pwrpas, cylch gwaith ac amcanion craidd y Fforwm yn fwy manwl;
- cyhoeddi Cais am Fewnbwn ar Gynllun Gwaith 2023/24 a oedd yn gofyn i randdeiliaid allanol am eu barn ar flaenoriaethau'r Fforwm ac i nodi cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio/cydweithio parhaus;
- datblygu a lansio gwefan benodol ar gyfer y Fforwm sy'n dwyn ynghyd mewn un lle fanylion ynghylch beth yw'r Fforwm, gwybodaeth am ddigwyddiadau a chyhoeddiadau yn ogystal â darparu cartref yn y dyfodol ar gyfer porth ymchwil y Fforwm; a
- chynyddu nifer cyhoeddiadau allanol y Fforwm, o ddatganiadau ar y cyd i flogiau sy'n rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau'r Fforwm.^{18 19}

Buddsoddodd y Fforwm mewn cysylltiadau â rhanddeiliaid o bob rhan o'r diwydiant, y llywodraeth, y Senedd, rheoleiddwyr eraill, a grwpiau rhyngwladol.

2.34 Mae'r Fforwm yn ymgysylltu'n eang er mwyn rhannu ei ddealltwriaeth a dysgu gan eraill. Fe wnaethom fuddsoddi amser mewn meithrin perthynas â rhwydwaith eang o randdeiliaid:



Ymgysylltu â'r sector digidol: Roedd cynllun gwaith 2022/23 yn nodi uchelgais y Fforwm i ymgysylltu â busnesau bach a chanolig i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion rheoleiddio ymysg y grŵp hwn. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys digwyddiadau wedi eu targedu gyda chwmnïau technoleg ariannol a gemau fideo ym Manceinion a Chaeredin, yn ogystal ag ymgysylltu â chwmnïau mawr a bach drwy grwpiau diwydiant fel Coadec a TechUK. Fe wnaethom hefyd gwrdd â grwpiau defnyddwyr ac elusennau gan gynnwys yr NSPCC, Ymddiriedolaeth Carnegie, Which?, a'r Sefydliad 5Rights i godi ymwybyddiaeth o fodel y Fforwm a deall eu safbwyntiau ynghylch sut gallai rheoleiddwyr fod yn gweithio mewn ffordd gyfannol i wasanaethu defnyddwyr. Daeth prosiectau'r Fforwm o hyd i fewnbwn gan y diwydiant drwy gydol eu gwaith, gan gynnwys y datganiadau ar y cyd, digwyddiadau sganio'r gorwel, papurau ar brosesu algorithmig a sut gall rheoleiddwyr gynorthwyo gwaith arloeswyr.



Ymgysylltu â'r llywodraeth a'r senedd: Cyfarfu'r Fforwm ag amrywiaeth o randdeiliaid seneddol gan gynnwys diweddarau Cadeiryddion Pwyllgor Digidol a Thechnoleg Tŷ'r Arglwyddi a Phwyllgor Dethol BEIS ar ei waith (yn dilyn eu

¹⁸ Cylch Gorchwyl y Fforwm GOV.UK 5 Medi 2022

¹⁹ Cynllun Gwaith y Fforwm 2023 i 2024 Cais am Fewnbwn GOV.UK 7 Rhagfyr 2022

cyfeiriadau at y Fforwm yn adroddiadau'r Pwyllgor) a chynnal digwyddiad gyda'r Fforwm hollbleidiol ar y Rhynggrwyd, Cyfathrebu a Thechnoleg Seneddol (PICTFOR). Rydym yn parhau i ymgysylltu â thimau rheoleiddio digidol yn y llywodraeth.



Ymgysylltu rheoleiddiol: Mae'r angen i feithrin gwybodaeth a gallu mewn materion rheoleiddio digidol yn ehangach na dim ond aelodaeth y Fforwm, felly mae'n bwysig hefyd rhannu gwersi gyda rheoleiddwyr eraill a dysgu oddi wrthynt. Roedd y Fforwm wedi arwain trafodaeth chwarterol o gwmpas y bwrdd â Rheoleiddwyr i rannu gwybodaeth am sut mae gwahanol reoleiddwyr yn mynd i'r afael â materion digidol – gyda phynciau'n cael eu trafod yn 2022 yn gynnwys y metafyd a'r dulliau o ddefnyddio arbenigedd gwyddor data. Cynyddodd nifer y rheoleiddwyr a gynrychiolir yn Cyfarfod o Gwmpas y Bwrdd i Reoleiddiwr yn 2022/23 i ddeg.²⁰ Ar draws y flwyddyn, fe wnaethom hefyd gwrdd yn ddwyochrog â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys Ofgem a'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, ac fe wnaethom barhau i ymgysylltu'n rheolaidd bob dau fis â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig i drafod blaenoriaethau a synergeddau priodol.



Ymgysylltu rhyngwladol: Wrth i awdurdodaethau eraill ledled y byd ystyried eu dulliau o ymdrin â pholisi digidol, mae'r Fforwm yn ymgysylltu'n helaeth ag awdurdodau rhyngwladol. Roedd hyn yn cynnwys cwrdd ag awdurdodau rheoleiddio eraill yn Iwerddon, Mecsico, Unol Daleithiau America, Awstralia, Canada, yr Iseldiroedd ac eraill, i rannu arferion gorau o ran cydweithredu rheoleiddiol. Fe wnaethom rannu gwybodaeth â thiriogaethau eraill sy'n sefydlu mecanweithiau cydweithio tebyg i'r Fforwm, fel y Samenwerkingsplatform Digitale Toezichhouders (SDT) yn yr Iseldiroedd, y Grôp Rheoleiddwyr Digidol (DRG) yn Iwerddon a'r Fforwm Rheoleiddwyr Llwyfannau Digidol (DPRF) yn Awstralia.

²⁰ Y rhai sy'n bresennol yn y Drafodaeth o Gwmpas y Bwrdd i Reoleiddwyr yw'r Awdurdod Safonau Hysbysebu, Banc Lloegr, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, y Comisiwn Ansawdd Gofal, y Comisiwn Etholiadol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Comisiwn Hapchwarea, y Swyddfa Eiddo Deallusol, yr Asiantaeth Rheoleiddio Cynnyrch Meddygol a Gofal Iechyd a'r Rheoleiddiwr Systemau Talu.